**Yn dilyn trafodaethau defnyddiol gyda Jacob, Miriam a Hanna a'u cefnogaeth i'r testun canlynol, cadarnhaf, fel Cadeirydd y Cyngor a Changhellor Prifysgol Aberystwyth, y byddaf yn cyflwyno'r testun hwn fel cynnig personol yng nghyfarfod Cyngor y Brifysgol ddydd Llun 22 Mehefin:**

Mae'r Cyngor yn tanlinellu ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg ac i ddarparu llety Cymraeg penodedig o fewn y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn gwahodd y Tîm Gweithredu i ddarparu llety Cymraeg ym Mhenbryn o fis Medi 2015 ymlaen a fydd yn cynnwys digon o le ar gyfer gweithgareddau cymunedol a diwylliannol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr ar draws y Brifysgol.

Mae'r Cyngor, gan gydnabod na ellir darparu llety ym Mhantycelyn o'r mis yma ymlaen, yn croesawu ac yn cymeradwyo argymhelliad y Tîm Gweithredu i symud rhai gwasanaethau penodol i mewn i Bantycelyn, er mwyn darparu gweithgareddau Cymraeg. Cadarnheir hefyd y caiff UMCA a siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddefnyddio'r adeilad.

Mae'r Cyngor yn gwahodd y Tîm Gweithredu i ddatblygu briff dylunio er mwyn darparu llety a gofod cymdeithasol cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf, gan gadw mewn cof y galw am lety Cymraeg nawr ac yn y dyfodol. Byddai'r Cyngor yn dymuno bod y briff ar gyfer y llety a'r gofod cymdeithasol hwn, a fydd yn addas am 40 mlynedd, ar gael erbyn 30 Ebrill 2016. Mae hefyd yn mynnu yr ymgynghorir yn llawn ag UMCA a'r myfyrwyr, yn ogystal â'r staff a'r gymuned ehangach, er mwyn diffinio cwmpas y llety cyfrwng Cymraeg rhagorol yma.

Caiff y briff dylunio hwn wedyn ei gymhwyso i Bantycelyn.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r cais hwn ystyried y canlynol: Strategaeth Ystadau ddiwygiedig y Brifysgol; y galw am lety Cymraeg; y newidadau strwythurol sydd eu hangen ar Bantycelyn, sy'n adeilad Rhestredig a'r tebygrwydd y caiff y caniatadau angenrheidiol eu rhoi; blaenoriaethau'r Brifysgol; a'r cyllid fydd ei angen.

Bydd y gwaith hwn wedi manteisio ar gyngor MPAG.

Cyflwynir adroddiad terfynol i'r Cyngor, a fydd yn ystyried y materion hyn, ynghyd â dyluniad clir, wedi'i gostio, ar gyfer llety Cymraeg ym Mhantycelyn, gan gynnwys strategaeth gyllido.

Ein bwriad, felly, yw ailagor Pantycelyn o fewn 4 blynedd er mwyn darparu llety a gofod cymdeithasol Cymraeg o'r radd flaenaf, a fydd yn addas i'r dyfodol.